

## Gall dull wedi'i dargedu o reoli buchod sych mewn ffordd ddethol leihau'r defnydd ar wrthfotigau a helpu ffermwyr i wneud penderfyniadau

Mae tri ffermwr yng ngogledd ddwyrain Cymru sy'n godro cyfanswm o 1,700 o wartheg Holstein Friesian ac sy'n gweithredu systemau lloia gydol y flwyddyn yn ymchwilio i weld a oes modd defnyddio dull wedi'i dargedu mwy ar gyfer rheoli eu gwartheg sych. Nid yw'n anarferol i ffermwyr ddefnyddio tiwbiau gwrthfotigau â selwyr tethi ar bob anifail wrth eu sychu, gyda llawer o ffermwyr yn credu bod gwrthfotigau yn para'n hir ond, mewn gwirionedd, ychydig iawn o amser maent yn para yn y pwrs neu'r gadair. Mae'r tri ffermwr yn gweithio at eu nod o ddefnyddio llai o wrthfotigau heb beryglu iechyd a lles y fuches.



Offer profi VetScan DC-Q

o gasglu'r sampl llaeth i gael y canlyniadau'n cymryd oddeutu awr, sy'n golygu bod gan reolwyr godro fynediad i ddata cyfredol ar iechyd y pwrs gan alluogi iddynt fod yn hyderus wrth wneud eu penderfyniad ar gyfer pob buwch.

Yn y prosiect hwn, mae'r ffermwyr yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf drwy wneud profion *leukocyte* gwahaniaethol (MLD) ar y llaeth gan ddefnyddio'r peiriant VetScan DC-Q. Mae'n beiriant diagnostig cludadwy newydd sydd wedi'i brofi'n wyddonol ac sy'n sganio samplau llaeth yn ficrosgopig. Mae'n caniatáu ichi samplo a phrofi pob chwarter godro cyn sychu'r fuwch er mwyn canfod a oes ar chwarteri unigol angen therapi gwrthfotigau i frwydro yn erbyn haint yn y deth, neu a ellir eu sychu gan ddefnyddio seliwr tethi mewnol yn unig. Mae canlyniadau'r prawf ar gael yn gyflym iawn gan alluogi i'r ffermwr wneud penderfyniad yn gyflym. I'r ffermwr hyn, mae'r broses gyflawn

Dyma ganlyniadau'r buchod sydd wedi cael eu sychu hyd yma. Cafodd unrhyw fuwch a oedd â lefel cyfrif celloedd somatig dros 150,000 o gelloedd/ml yn eu llaeth neu brawf chwarter VetScan positif ei thrin â gwrthfotigau a seliwr.

Fferm 1: Ers ddechrau Mehefin 2020, cafodd 44 o fuchod eu sychu, gyda 9 ar selwyr yn unig, a 35 â gwrthfotigau + selwyr. O'r 35 o fuchod hyn, byddai 16 ohonynt ond wedi cael eu trin â seliwr pe byddai'r ffermwr wedi defnyddio cofnodion llaeth SCC yn unig, a gallai hyn fod wedi arwain at ailgynnau haint yn y gadair/pwrs yn ystod y cyfnod sych neu adeg lloia.

Fferm 2: Ers Rhagfyr 2019, cafodd 160 o fuchod eu sychu, gyda 81 ar selwyr yn unig a 79 â gwrthfotigau + selwyr. O'r 79 o fuchod hyn, byddai 20 ohonynt wedi cael eu trin â seliwr pe byddai'r ffermwr wedi defnyddio cofnodion Ilaeth SCC yn unig.

Fferm 3: Ers Tachwedd 2019, cafodd 125 o fuchod eu sychu, gyda 36 ar selwyr yn unig a 89 â gwrthfotigau + selwyr. Byddai 35 o'r buchod hyn, pe byddai'r ffermwr wedi dibynnu ar gofnodion Ilaeth SCC yn unig wedi cael eu trin â seliwr yn unig. Gan nad yw'r fferm hon ond yn cadw cofnod o'r Ilaeth bob tri mis, gall y data hwn fod yn annibynadwy adeg sychu'r buchod.

Mae'r holl ffermwyr yn hapus â chanlyniadau'r prosiect hyd yma gan eu bod yn awyddus i ddefnyddio llai o wrthfotigau ac mae hyn wedi rhoi iddynt fwy o hyder i ddefnyddio selwyr yn unig ar fuchod sydd â SCC isel.

Mae'n bwysig iawn pwysleisio y dylai'r penderfyniad ar gyfer pob buwch fod yn gyfuniad o brawf Vetscan DC-Q diweddar, dadansoddi hanes SCC Ilaethiad diweddar y fuch unigol, yn ogystal â'i hanes mastitis. Y ffermwyr piau'r penderfyniad terfynol.

Mae'r buchod a gafodd eu sychu yn ystod y prosiect cyn belled wedi cael eu trin ar lefel y gadair/pwrs cyfan (gan drin y 4 chwarter yr un fath), fodd bynnag, cam nesaf y prosiect yw mynd i lawr i lefel chwarteri unigol ar y tair fferm.

Mantais arall defnyddio llai o wrthfotigau yw'r arbediad mewn costau; cyn belled mae'r cyfanswm a arbedwyd yn £932.00, ac mae hwn yn seiliedig ar gost gyfartalog pob tiwb o wrthfotigau, sef £1.85 (heb TAW), ond bydd hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar yr opsiwn gwrthfotigau ar gyfer pob fferm.